



OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

**2022 Rhif 1259 (Cy. 257)**

**2022 No. 1259 (W. 257)**

**DYFRAMAETHU, CYMRU**

**AQUACULTURE, WALES**

**PYSGODFEYDD, CYMRU**

**FISHERIES, WALES**

**AMGYLCHEDD MOROL,  
CYMRU**

**MARINE ENVIRONMENT,  
WALES**

Rheoliadau Cynllun Morol,  
Pysgodfeydd a Dyframaethu  
(Cymorth Ariannol) (Cymru) 2022

The Marine, Fisheries and  
Aquaculture (Financial Assistance)  
Scheme (Wales) Regulations 2022

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn sefydlu'r Cynllun i Weinidogion Cymru roi grantiau a gwneud benthyciadau o dan baragraff 2 o Atodlen 6 i Ddeddf Pysgodfeydd 2020 (p. 22).

These Regulations establish the Scheme for the giving of grants and making of loans by the Welsh Ministers under paragraph 2 of Schedule 6 to the Fisheries Act 2020 (c. 22).

Mae paragraff 2(1) o Atodlen 6 i Ddeddf Pysgodfeydd 2020 yn pennu'r dibenion y caniateir rhoi cymorth ariannol ar eu cyfer.

Paragraph 2(1) of Schedule 6 to the Fisheries Act 2020 specifies the purposes for which financial assistance can be given.

Mae Rhan 1 o'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaethau rhagarweiniol cyffredinol. Mae Rhan 2 yn darparu ar gyfer sefydlu'r Cynllun. Mae Rhan 3 yn cyfansoddi'r Cynllun ac yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru dalu grantiau a gwneud benthyciadau. Caiff Gweinidogion Cymru dalu grantiau neu wneud benthyciadau mewn cysylltiad â'r gweithgareddau a restrir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Part 1 of these Regulations contains general introductory provisions. Part 2 provides for the establishment of the Scheme. Part 3 constitutes the Scheme and makes provision for the payment of grants and the making of loans by the Welsh Ministers. The Welsh Ministers may pay grants or make loans in respect of the activities listed in the Schedule to these Regulations.

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi ar ba sail y caiff Gweinidogion Cymru dalu grantiau a gwneud benthyciadau ac maent yn gosod gweithdrefn ar gyfer gwneud ceisiadau. Cyn talu grant neu fenthyciad rhaid bod Gweinidogion Cymru yn fodlon ar y gwariant yr aed iddo, neu yr eir iddo, ac y cydymffurfir ag unrhyw amodau cymeradwyo.

These Regulations set out the basis on which the Welsh Ministers may pay grants and make loans and lays down a procedure for applications. Payment of a grant or loan is dependent on the Welsh Ministers being satisfied as to the expenditure incurred, or to be incurred, and as to compliance with any conditions of approval.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn darparu bod talu grant neu fenthyciad yn amodol ar y ceisydd yn cadw cofnodion perthnasol ac yn hysbysu Gweinidogion Cymru am unrhyw newid sylweddol mewn amgylchiadau. Gall Gweinidogion Cymru amrywio, atal dros dro a dirymu'r penderfyniad i gymeradwyo cais am grant neu fenthyciad a chânt, drwy hysbysiad, ei gwneud yn ofynnol i ad-dalu grant neu fenthyciad os na chaiff rhai amodau penodol eu bodloni (gydag unrhyw symiau sydd heb eu had-dalu yn cael eu hadennill yn y pen draw fel dyled sifil).

Caniateir cyflwyno sylwadau mewn cysylltiad â phenderfyniadau'n ymwneud â cheisiadau am grantiau a benthyciadau a hysbysiadau am amrywiadau, ataliadau dros dro a dirymiadau. Rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r ceisydd am eu penderfyniad yn dilyn sylwadau o'r fath.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi swyddogaeth orfodi i swyddogion gorfodi morol a benodir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p. 23). Mae a wnelo'r swyddogaeth â gorfodi unrhyw droseddau posibl a gyflawnir mewn perthynas â chais am grant neu fenthyciad o dan y Cynllun (er enghraifft, trosedd o dan Ddeddf Twyll 2006 (p. 35)). Caiff pwerau gorfodi perthnasol ar gyfer swyddogion gorfodi morol o dan Ran 8 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 eu cymhwyso hefyd at ddibenion y swyddogaeth hon.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac fe'i cyhoeddir ar [www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru).

These Regulations also provide that payment of a grant or loan is conditional on the applicant retaining relevant records and notifying the Welsh Ministers of any material change in circumstances. The Welsh Ministers have the ability to vary, suspend and revoke the approval of an application for a grant or loan and may, by notice, require the repayment of a grant or loan if certain conditions are not satisfied (with any sums outstanding ultimately recoverable as a civil debt).

Representations may be made in respect of decisions relating to applications for grants and loans and notices of variation, suspension and revocations. The Welsh Ministers must notify the applicant of their decision following such representations.

These Regulations confer an enforcement function on marine enforcement officers appointed by the Welsh Ministers under the Marine and Coastal Access Act 2009 (c. 23). The function is for the enforcement of any potential offences committed in relation to an application for a grant or loan under the Scheme (for example, an offence under the Fraud Act 2006 (c. 35)). Relevant enforcement powers for marine enforcement officers under Part 8 of the Marine and Coastal Access Act 2009 are also applied for the purposes of this function.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and is published on [www.gov.wales](http://www.gov.wales).

**2022 Rhif 1259 (Cy. 257)**

**2022 No. 1259 (W. 257)**

**DYFRAMAETHU, CYMRU**

**AQUACULTURE, WALES**

**PYSGODFEYDD, CYMRU**

**FISHERIES, WALES**

**AMGYLCHEDD MOROL,  
CYMRU**

**MARINE ENVIRONMENT,  
WALES**

Rheoliadau Cynllun Morol,  
Pysgodfeydd a Dyframaethu  
(Cymorth Ariannol) (Cymru) 2022

The Marine, Fisheries and  
Aquaculture (Financial Assistance)  
Scheme (Wales) Regulations 2022

*Gwnaed* 30 Tachwedd 2022

*Made* 30 November 2022

*Yn dod i rym* 1 Rhagfyr 2022

*Coming into force* 1 December 2022

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 2 o Atodlen 6 i Ddeddf Pysgodfeydd 2020(1).

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by paragraph 2 of Schedule 6 to the Fisheries Act 2020(1).

Yn unol ag adran 51(4)(c) o'r Ddeddf honno, mae drafft o'r offeryn hwn wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

In accordance with section 51(4)(c) of that Act, a draft of this instrument has been laid before and approved by resolution of Senedd Cymru.

## RHAN 1

### Cyffredinol

## PART 1

### General

#### Enwi, cychwyn, rhychwant a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllun Morol, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cymorth Ariannol) (Cymru) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Rhagfyr 2022.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn—

(a) yn rhychwantu Cymru a Lloegr;

#### Title, commencement, extent and application

1.—(1) The title of these Regulations is the Marine, Fisheries and Aquaculture (Financial Assistance) Scheme (Wales) Regulations 2022.

(2) These Regulations come into force on 1 December 2022.

(3) These Regulations—

(a) extend to England and Wales;

(1) 2020 p. 22.

(1) 2020 c. 22.

- (b) yn gymwys o ran—
  - (i) Cymru;
  - (ii) parth Cymru;
  - (iii) cychod pysgota Cymreig.

- (b) apply in relation to—
  - (i) Wales;
  - (ii) the Welsh zone;
  - (iii) Welsh fishing boats.

## Dehongli

### 2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “a bennir” (“*specified*”) yw a bennir yn ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys mewn unrhyw ddogfennaeth a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru neu a ddarperir ganddynt fel arall;

ystyr “cwch pysgota Cymreig” (“*Welsh fishing boat*”) yw cwch pysgota—

- (a) sydd wedi ei gofrestru yn y Deyrnas Unedig o dan Ran 2 o Ddeddf Llongau Masnach 1995(1), a
- (b) y mae ei gofnod yn y gofrestr yn pennu porthladd yng Nghymru sydd i’w drin fel yr un y mae’r cwch yn perthyn iddo;

ystyr “hysbysedig” (“*notified*”) yw hysbysedig yn ysgrifenedig;

mae “ysgrifenedig” (“*writing*”) yn cynnwys cyfathrebiadau electronig o fewn ystyr adran 15(1) (dehongli cyffredinol) o Ddeddf Cyfathrebiadau Electronig 2000(2), a gofnodwyd ac y gellir felly eu hatgynhyrchu.

## Interpretation

### 2. In these Regulations—

“notified” (“*hysbysedig*”) means notified in writing;

“specified” (“*a bennir*”) means specified in writing by the Welsh Ministers, including in any documentation published or otherwise provided by the Welsh Ministers;

“Welsh fishing boat” (“*cwch pysgota Cymreig*”) means a fishing boat—

- (a) which is registered in the United Kingdom under Part 2 of the Merchant Shipping Act 1995(1), and
- (b) whose entry in the register specifies a port in Wales as the port to which the boat is to be treated as belonging;

“writing” (“*ysgrifenedig*”) includes electronic communications within the meaning of section 15(1) (general interpretation) of the Electronic Communications Act 2000(2), which has been recorded and is consequently capable of being reproduced.

## RHAN 2

### Sefydlu’r Cynllun

#### Sefydlu’r Cynllun

3.—(1) Mae’r Rheoliadau hyn yn sefydlu Cynllun i Weinidogion Cymru roi cymorth ariannol o dan baragraff 2(1) o Atodlen 6 i Ddeddf Pysgodfeydd 2020.

(2) Mae Rhan 3 o’r Rheoliadau hyn yn cyfansoddi’r Cynllun.

## PART 2

### Establishment of the Scheme

#### Establishment of the Scheme

3.—(1) These Regulations establish a Scheme for the giving of financial assistance by the Welsh Ministers under paragraph 2(1) of Schedule 6 to the Fisheries Act 2020.

(2) Part 3 of these Regulations constitutes the Scheme.

(1) 1995 p. 21. Mae Rhan 2 wedi ei diwygio gan O.S. 2002/794 ac O.S. 2015/664.

(2) 2000 p. 7. Diwygiwyd adran 15 gan adran 406(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (p. 21) a pharagraff 158 o Atodlen 17 iddi.

(1) 1995 c. 21. Part 2 has been amended by S.I. 2002/794 and S.I. 2015/664.

(2) 2000 c. 7. Section 15 was amended by the Communications Act 2003 (c. 21), section 406(1) and Schedule 17, paragraph 158.

## RHAN 3

### Talu grantiau a gwneud benthyciadau gan Weinidogion Cymru

#### Talu grantiau a gwneud benthyciadau

4.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru, yn unol â'r Cynllun hwn, dalu grantiau neu wneud benthyciadau, mewn cysylltiad â'r gweithgareddau a restrir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru dalu grant neu wneud benthyciad o dan baragraff (1) i unrhyw berson—

- (a) sydd wedi gwneud cais am grant neu fenthyciad, a
- (b) y mae Gweinidogion Cymru wedi cymeradwyo ei gais.

#### Hysbysebu a chanllawiau

5. Rhaid i Weinidogion Cymru—

- (a) hysbysebu'r grantiau a'r benthyciadau sydd ar gael o dan y Cynllun hwn, a
- (b) darparu canllawiau ar gwblhau ceisiadau.

#### Cais am grant neu fenthyciad

6.—(1) Rhaid i gais am grant neu fenthyciad o dan y Cynllun hwn gael ei wneud ar y ffordd a bennir, cael ei gyflwyno yn y ffordd a bennir a chynnwys yr wybodaeth a bennir.

(2) Rhaid i gais gael ei wneud o fewn unrhyw derfyn amser a bennir.

(3) Rhaid i geisydd ddarparu unrhyw ddogfennau eraill neu unrhyw wybodaeth arall a bennir pan ddaw'r cais i law neu ar ôl hynny.

#### Penderfyniad a hysbysiad

7.—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru—

- (a) gwrthod cais neu wrthod cymeradwyo cais, neu
- (b) cymeradwyo cais yn llawn neu'n rhannol, yn ddiamod neu'n ddarostyngedig i'r amodau a nodir ganddynt.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r ceisydd am y penderfyniad a wneir o dan baragraff (1).

#### Tystiolaeth o wariant etc.

8.—(1) Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud taliad i berson o dan y Cynllun hwn oni bai eu bod yn fodlon bod y person wedi mynd i wariant, neu yr aiff i

## PART 3

### Payment of grants and making of loans by the Welsh Ministers

#### Payments of grants and making of loans

4.—(1) The Welsh Ministers may, in accordance with this Scheme, pay grants or make loans, in respect of the activities listed in the Schedule to these Regulations.

(2) The Welsh Ministers may pay a grant or make a loan under paragraph (1) to any person—

- (a) who has applied for a grant or a loan, and
- (b) whose application the Welsh Ministers have approved.

#### Advertisement and guidance

5. The Welsh Ministers must—

- (a) advertise the grants and loans available under this Scheme, and
- (b) provide guidance for completing applications.

#### Application for a grant or loan

6.—(1) An application for a grant or loan under this Scheme must be made in such form, submitted in such manner and include such information as may be specified.

(2) An application must be made within any specified time limit.

(3) An applicant must provide any other documents or information as may be specified on or after receipt of the application.

#### Decision and notification

7.—(1) The Welsh Ministers must—

- (a) reject or refuse to approve an application, or
- (b) approve an application in whole or in part, unconditionally or subject to such conditions as they may determine.

(2) The Welsh Ministers must notify the applicant of the decision made under paragraph (1).

#### Evidence of expenditure etc.

8.—(1) The Welsh Ministers must not make a payment to a person under this Scheme unless they are satisfied that the person has properly incurred, or will

wariant, yn briodol a bod y gwariant hwnnw yn wariant y telir y grant neu'r benthyciad yn ei gylch a'i fod wedi cydymffurfio, neu y gwnaiff gydymffurfio, ag unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth gymeradwyo'r grant neu'r benthyciad.

(2) At ddibenion paragraff (1), caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r person ddarparu gwybodaeth yn dangos tystiolaeth o wariant neu unrhyw gamau angenrheidiol yn ymwneud â'r grant neu'r benthyciad.

### **Dull o dalu**

9. Caiff Gweinidogion Cymru dalu grant neu wneud benthyciad o dan y Cynllun hwn yn unol â'r rhandaliadau ac ar yr adeg a nodir ganddynt.

### **Cofnodion, edrych ar gofnod a hysbysiad am newidiadau**

10. Un o amodau talu unrhyw grant a gwneud benthyciadau yw bod rhaid i'r person y gwneir y taliad iddo—

- (a) gwneud cofnod o'r holl daliadau grant neu fenthyciad a wneir a'r holl wariant y gwneir taliadau o'r fath yn ei gylch,
- (b) cadw unrhyw gofnod y cyfeirir ato ym mharagraff (a) am chwe blynedd o leiaf ar ôl y dyddiad y gwnaed y taliad olaf,
- (c) yn dilyn hysbysiad rhesymol gan Weiniogion Cymru, sicrhau bod unrhyw gofnod y cyfeirir ato ym mharagraff (a) ar gael i edrych arno, a
- (d) hysbysu Gweinidogion Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol am unrhyw newid sylweddol mewn amgylchiadau sy'n berthnasol i dalu'r grant neu'r benthyciad.

### **Amrywio, atal dros dro a dirymu cymeradwyaeth**

11.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru, ar unrhyw adeg cyn i'r grant neu'r benthyciad gael ei dalu'n llawn, atal dros dro neu ddirymu'r gymeradwyaeth, yn llawn neu'n rhannol, neu amrywio amod sy'n gysylltiedig â'r gymeradwyaeth (gan gynnwys ychwanegu neu ddileu amodau).

(2) Rhaid i Weiniogion Cymru hysbysu'r ceisydd am benderfyniad a wneir o dan baragraff (1).

### **Y weithdrefn ar gyfer gwneud sylwadau mewn cysylltiad â phenderfyniad hysbysedig**

12.—(1) Caiff y ceisydd wneud sylwadau mewn perthynas â phenderfyniad hysbysedig o dan reoliad 7(2) neu 11(2).

properly incur, expenditure of a kind in respect of which the grant or loan is payable and has complied, or will comply, with any conditions of the approval of the grant or loan.

(2) For the purposes of paragraph (1), the Welsh Ministers may require the person to provide information evidencing expenditure or any necessary actions relating to the grant or loan.

### **Method of payment**

9. The Welsh Ministers may pay a grant or make a loan under this Scheme by such instalments and at such time as they may determine.

### **Records, inspection and notification of changes**

10. It is a condition of the payment of any grant and the making of loans that the person to whom the payment is made must—

- (a) make a record of all payments of grant or loan made and all expenditure in respect of which such payments are made,
- (b) keep any record referred to in paragraph (a) for at least six years after the date on which the last payment was made,
- (c) upon reasonable notice by the Welsh Ministers, make any record referred to in paragraph (a) available for inspection, and
- (d) notify the Welsh Ministers as soon as reasonably practicable of any material change in circumstances that is relevant to the payment of the grant or loan.

### **Variation, suspension and revocation of approval**

11.—(1) The Welsh Ministers may, at any time before the grant or loan has been paid in full, suspend or revoke the approval, in whole or in part, or vary a condition of the approval (including adding or removing conditions).

(2) The Welsh Ministers must notify the applicant of a decision made under paragraph (1).

### **Procedure for making representations in respect of a notified decision**

12.—(1) The applicant may make representations in relation to a decision notified under regulation 7(2) or 11(2).

(2) Caniateir pennu ar ba ffurf ac ym mha fodd y mae rhaid gwneud sylwadau, gan gynnwys y dogfennau neu'r wybodaeth arall sy'n ofynnol, a'r terfyn amser ar gyfer gwneud sylwadau.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r ceisydd am eu penderfyniad yn dilyn sylwadau a wneir o dan baragraff (1).

### Hysbysiad am adennill taliad

**13.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru roi hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol i ad-dalu unrhyw ran o grant neu fenthyciad a dalwyd i berson o dan y Cynllun hwn.

(2) Cyn rhoi hysbysiad o dan baragraff (1), rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi eu bodloni—

- (a) bod y cais a gymeradwywyd y gwnaed y taliad yn ei gylch, neu unrhyw wybodaeth ategol a ddarparwyd gan y ceisydd mewn perthynas ag ef, yn cynnwys gwybodaeth a oedd yn anghywir neu'n gamarweiniol,
- (b) bod unrhyw swm a dalwyd ar ffurf grant neu fenthyciad wedi cael ei ddefnyddio at unrhyw ddiben heblaw y diben y'i talwyd ar ei gyfer, neu
- (c) na chydymffurfiwyd ag unrhyw un neu ragor o'r amodau y cymeradwywyd y cais yn unol â hwy, neu y talwyd y grant neu'r benthyciad yn unol â hwy, neu na ellir cydymffurfio â hwy.

(3) Rhaid i hysbysiad a roddir o dan baragraff (1) ei gwneud yn ofynnol i'r person ad-dalu'r swm a bennir yn yr hysbysiad o fewn cyfnod a bennir, nad yw'n llai nag 28 o ddiwrnodau o'r dyddiad y dyroddir yr hysbysiad.

(4) Pan na chaiff unrhyw ran o'r swm a bennir mewn hysbysiad o dan baragraff (1) ei had-dalu o fewn y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad, caiff Gweinidogion Cymru adennill y swm hwnnw sydd heb ei ad-dalu yn ddiannod fel dyled sifil.

### Gorfodi

**14.**—(1) Mae gan swyddog gorfodi morol swyddogaeth orfodi mewn perthynas ag unrhyw drosedd neu drosedd a amheuir (er enghraifft, trosedd o dwyll o dan Ddeddf Twyll 2006(1)) gan unrhyw berson mewn perthynas â chais am grant neu fenthyciad a wneir o dan y Cynllun hwn.

(2) The form and manner in which representations must be made, including the documents or other information required, and the time limit for making representations may be specified.

(3) The Welsh Ministers must notify the applicant of their decision following representations made under paragraph (1).

### Notice of recovery of payment

**13.**—(1) The Welsh Ministers may give notice to require the repayment of any part of a grant or loan paid to a person under this Scheme.

(2) Before giving notice under paragraph (1), the Welsh Ministers must be satisfied that—

- (a) the approved application in respect of which the payment was made, or any supporting information provided by the applicant in relation to it, contained information that was inaccurate or misleading,
- (b) any sum paid by way of grant or loan was used for any purpose other than the purpose for which it was paid, or
- (c) any condition subject to which the application was approved, or the grant or loan was paid, has not been or cannot be complied with.

(3) A notice given under paragraph (1) must require the person to repay the sum specified in the notice within a period so specified, being no less than 28 days from the date on which the notice is issued.

(4) Where any part of the sum specified in a notice under paragraph (1) is not repaid within the period specified in the notice, the Welsh Ministers may recover such amount as remains outstanding summarily as a civil debt.

### Enforcement

**14.**—(1) A marine enforcement officer has an enforcement function in relation to any offence or suspected offence (for example, an offence of fraud under the Fraud Act 2006(1)) by any person in relation to an application for a grant or loan made under this Scheme.

---

(1) 2006 p. 35.

---

(1) 2006 c. 35.

(2) Mae adran 238 (gorfodi'r ddeddfwriaeth pysgodfeydd) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009(1) yn gymwys mewn perthynas â'r swyddogaeth a roddir gan baragraff (1) fel y mae'n gymwys mewn perthynas â gorfodi'r ddeddfwriaeth pysgodfeydd.

(3) Yn y rheoliad hwn—

mae i “y ddeddfwriaeth pysgodfeydd” yr un ystyr ag a roddir i “the fisheries legislation” yn adran 238(2) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009;

mae i “swyddog gorfodi morol” yr un ystyr ag a roddir i “marine enforcement officer” yn adran 235(1)(b) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

(2) Section 238 (enforcement of the fisheries legislation) of the Marine and Coastal Access Act 2009(1) applies in relation to the function conferred by paragraph (1) as it applies in relation to the enforcement of the fisheries legislation.

(3) In this regulation—

“the fisheries legislation” (“y *ddeddfwriaeth pysgodfeydd*”) has the same meaning as in section 238(2) of the Marine and Coastal Access Act 2009;

“marine enforcement officer” (“*swyddog gorfodi morol*”) has the same meaning as in section 235(1)(b) of the Marine and Coastal Access Act 2009.

*Lesley Griffiths*

Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru  
30 Tachwedd 2022

Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd, one of the Welsh Ministers  
30 November 2022

---

(1) 2009 p. 23. Diwygiwyd adran 238 gan O.S. 2013/755 (Cy. 90), O.S. 2019/746 a chan adran 48 o Ddeddf Pysgodfeydd 2020 (p. 22) a pharagraffau 6 a 30 o Atodlen 10 iddi.

---

(1) 2009 c. 23. Section 238 was amended by S.I. 2013/755 (W. 90), S.I. 2019/746 and by the Fisheries Act 2020 (c. 22), section 48 and Schedule 10, paragraphs 6 and 30.



Gweithgareddau y caiff Gweinidogion  
Cymru dalu grantiau a gwneud  
benthyciadau ar eu cyfer o dan y Cynllun  
hwn

RHAN 1

**At ddibenion gwarchod, gwella neu adfer yr  
amgylchedd morol a dyfrol**

1. Gweithgareddau sy'n hyrwyddo arloesedd.
2. Gweithgareddau sy'n ymwneud â gwasanaethau cynghori proffesiynol.
3. Gweithgareddau sy'n hyrwyddo cyfalaf dynol a rhwydweithio.
4. Gweithgareddau sy'n lliniaru effeithiau amgylchiadau esgusodol niweidiol.
5. Gweithgareddau sy'n sefydlu neu'n gwella seilwaith ar gyfer defnyddwyr y môr a defnyddwyr dŵr croyw.
6. Gweithgareddau sy'n cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy safleoedd dyframaethu.
7. Gweithgareddau sy'n lleihau effaith cynhyrchu bwyd môr ar yr amgylchedd morol.
8. Gweithgareddau sy'n cyfrannu at warchod, adfer neu wella bioamrywiaeth ac ecosystemau dyfrol.
9. Gweithgareddau sy'n cyfrannu at lunio mesurau cadwraeth a'u rhoi ar waith.
10. Gweithgareddau sy'n cefnogi gwaith cynllunio gofodol morol mewn perthynas â'r defnydd cynaliadwy o adnoddau morol ac arfordirol.
11. Gweithgareddau sy'n cyfrannu at liniaru newid hinsawdd neu ei effeithiau.
12. Gweithgareddau sy'n cynnal neu'n gwella iechyd a lles anifeiliaid.

Activities for which the Welsh Ministers  
may pay grants and make loans under  
this Scheme

PART 1

**For the purpose of the conservation, enhancement  
or restoration of the marine and aquatic  
environment**

1. Activities which promote innovation.
2. Activities relating to professional advisory services.
3. Activities which promote human capital and networking.
4. Activities which mitigate the effects of adverse extenuating circumstances.
5. Activities which establish or improve infrastructure for marine and freshwater users.
6. Activities which contribute to the sustainable development of aquaculture sites.
7. Activities which reduce the impact of seafood production on the marine environment.
8. Activities which contribute towards conservation, restoration or enhancement of aquatic ecosystems and biodiversity.
9. Activities which contribute to the design and implementation of conservation measures.
10. Activities which support marine spatial planning for the sustainable use of marine and coastal resources.
11. Activities which contribute towards the mitigation of climate change or its effects.
12. Activities which maintain or improve animal health and welfare.

## RHAN 2

**At ddiben hyrwyddo neu ddatblygu gweithgareddau dyframaethu neu bysgod masnachol**

1. Gweithgareddau sy'n hyrwyddo arloesedd.
2. Gweithgareddau sy'n ymwneud â gwasanaethau cynghori proffesiynol.
3. Gweithgareddau sy'n hyrwyddo cyfalaf dynol a rhwydweithio.
4. Gweithgareddau sy'n gwella hylendid, iechyd, diogelwch, a llesiant.
5. Gweithgareddau sy'n cefnogi arallgyfeirio busnesau.
6. Gweithgareddau sy'n lliniaru effeithiau amgylchiadau esgusodol niweidiol.
7. Gweithgareddau sy'n sefydlu neu'n gwella seilwaith ar gyfer defnyddwyr y môr a defnyddwyr dŵr croyw.
8. Gweithgareddau sy'n hyrwyddo creu swyddi ac yn annog newydd-ddyfodiaid i'r diwydiannau morol, pysgota a dyframaethu.
9. Gweithgareddau sy'n cefnogi pysgotwyr neu ffermwyr dyframaethu i sefydlu busnesau pysgota neu ddyframaethu newydd.
10. Gweithgareddau sy'n cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy safleoedd dyframaethu.
11. Gweithgareddau sy'n cefnogi'r gwaith o farchnata cynhyrchion morol, pysgodfeydd a dyframaethu neu bysgota hamdden.
12. Gweithgareddau sy'n arwain at gynhyrchion, prosesau, neu systemau rheoli a threfnu, newydd neu well.
13. Gweithgareddau sy'n lleihau effaith cynhyrchu bwyd môr ar yr amgylchedd morol.
14. Gweithgareddau sy'n cyfrannu at warchod, adfer neu wella bioamrywiaeth ac ecosystemau dyfrol.
15. Gweithgareddau sy'n cyfrannu at lunio mesurau cadwraeth a'u rhoi ar waith.
16. Gweithgareddau sy'n cefnogi gwaith cynllunio gofodol morol mewn perthynas â'r defnydd cynaliadwy o adnoddau morol ac arfordirol.
17. Gweithgareddau sy'n cyfrannu at liniaru newid hinsawdd neu ei effeithiau.

## PART 2

**For the purpose of the promotion or development of commercial fish or aquaculture activities**

1. Activities which promote innovation.
2. Activities relating to professional advisory services.
3. Activities which promote human capital and networking.
4. Activities which improve hygiene, health, safety, and wellbeing.
5. Activities which support diversification of businesses.
6. Activities which mitigate the effects of adverse extenuating circumstances.
7. Activities which establish or improve infrastructure for marine and freshwater users.
8. Activities which promote job creation and encourages new entrants to the marine, fishing and aquaculture industries.
9. Activities which support fishers or aquaculture farmers to establish new fishing or aquaculture businesses.
10. Activities which contribute to the sustainable development of aquaculture sites.
11. Activities which support the marketing of marine, fisheries and aquaculture products or recreational fishing.
12. Activities which lead to new or improved products, processes or management and organisation systems.
13. Activities which reduce the impact of seafood production on the marine environment.
14. Activities which contribute towards conservation, restoration or enhancement of aquatic ecosystems and biodiversity.
15. Activities which contribute to the design and implementation of conservation measures.
16. Activities which support marine spatial planning for the sustainable use of marine and coastal resources.
17. Activities which contribute towards the mitigation of climate change or its effects.

18. Gweithgareddau sy'n cynnal neu'n gwella iechyd a lles anifeiliaid.

18. Activities which maintain or improve animal health and welfare.

### RHAN 3

### PART 3

**At ddiben ad-drefnu busnesau sydd ynghlwm wrth weithgareddau dyframaethu neu bysgod masnachol**

**For the purpose of the reorganisation of businesses involved in commercial fish or aquaculture activities**

1. Gweithgareddau sy'n hyrwyddo arloesedd.
2. Gweithgareddau sy'n ymwneud â gwasanaethau cynghori proffesiynol.
3. Gweithgareddau sy'n hyrwyddo cyfalaf dynol a rhwydweithio.
4. Gweithgareddau sy'n gwella hylendid, iechyd, diogelwch, a llesiant.
5. Gweithgareddau sy'n cefnogi arallgyfeirio busnesau.
6. Gweithgareddau sy'n sefydlu neu'n gwella seilwaith ar gyfer defnyddwyr y môr a defnyddwyr dŵr croyw.
7. Gweithgareddau sy'n hyrwyddo creu swyddi ac yn annog newydd-ddyfodiaid i'r diwydiannau morol, pysgota a dyframaethu.
8. Gweithgareddau sy'n cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy safleoedd dyframaethu.
9. Gweithgareddau sy'n cefnogi'r gwaith o farchnata cynhyrchion morol, pysgodfeydd a dyframaethu neu bysgota hamdden.
10. Gweithgareddau sy'n arwain at gynhyrchion, prosesau, neu systemau rheoli a threfnu, newydd neu well.
11. Gweithgareddau sy'n lleihau effaith cynhyrchu bwyd môr ar yr amgylchedd morol.
12. Gweithgareddau sy'n cyfrannu at warchod, adfer neu wella bioamrywiaeth ac ecosystemau dyfrol.
13. Gweithgareddau sy'n cefnogi gwaith cynllunio gofodol morol mewn perthynas â'r defnydd cynaliadwy o adnoddau morol ac arfordirol.
14. Gweithgareddau sy'n cyfrannu at liniaru newid hinsawdd neu ei effeithiau.
15. Gweithgareddau sy'n cynnal neu'n gwella iechyd a lles anifeiliaid.

1. Activities which promote innovation.
2. Activities relating to professional advisory services.
3. Activities that promote human capital and networking.
4. Activities which improve hygiene, health, safety, and wellbeing.
5. Activities which support diversification of businesses.
6. Activities which establish or improve infrastructure for marine and freshwater users.
7. Activities which promote job creation and encourages new entrants to the marine, fishing and aquaculture industries.
8. Activities which contribute to the sustainable development of aquaculture sites.
9. Activities which support the marketing of marine, fisheries and aquaculture products or recreational fishing.
10. Activities which lead to new or improved products, processes or management and organisation systems.
11. Activities which reduce the impact of seafood production on the marine environment.
12. Activities which contribute towards conservation, restoration or enhancement of aquatic ecosystems and biodiversity.
13. Activities which support marine spatial planning for the sustainable use of marine and coastal resources.
14. Activities which contribute towards the mitigation of climate change or its effects.
15. Activities which maintain or improve animal health and welfare.

## RHAN 4

**At ddiben cyfrannu at dreuliau personau sydd ynghlwm wrth weithgareddau dyframaethu neu bysgod masnachol**

1. Gweithgareddau sy'n hyrwyddo arloesedd.
2. Gweithgareddau sy'n ymwneud â gwasanaethau cynghori proffesiynol.
3. Gweithgareddau sy'n hyrwyddo cyfalaf dynol a rhwydweithio.
4. Gweithgareddau sy'n gwella hylendid, iechyd, diogelwch, a llesiant.
5. Gweithgareddau sy'n cefnogi arallgyfeirio busnesau.
6. Gweithgareddau sy'n lliniaru effeithiau amgylchiadau esgusodol niweidiol.
7. Gweithgareddau sy'n sefydlu neu'n gwella seilwaith ar gyfer defnyddwyr y môr a defnyddwyr dŵr croyw.
8. Gweithgareddau sy'n hyrwyddo creu swyddi ac yn annog newydd-ddyfodiaid i'r diwydiannau morol, pysgota a dyframaethu.
9. Gweithgareddau sy'n cefnogi pysgotwyr neu ffermwyr dyframaethu i sefydlu busnesau pysgota neu ddyframaethu newydd.
10. Gweithgareddau sy'n cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy safleoedd dyframaethu.
11. Gweithgareddau sy'n cefnogi'r gwaith o farchnata cynhyrchion morol, pysgodfeydd a dyframaethu neu bysgota hamdden.
12. Gweithgareddau sy'n arwain at gynhyrchion, prosesau, neu systemau rheoli a threfnu, newydd neu well.
13. Gweithgareddau sy'n lleihau effaith cynhyrchu bwyd môr ar yr amgylchedd morol.
14. Gweithgareddau sy'n cyfrannu at warchod, adfer neu wella bioamrywiaeth ac ecosystemau dyfrol.
15. Gweithgareddau sy'n cyfrannu at lunio mesurau cadwraeth a'u rhoi ar waith.
16. Gweithgareddau sy'n cefnogi gwaith cynllunio gofodol morol mewn perthynas â'r defnydd cynaliadwy o adnoddau morol ac arfordirol.
17. Gweithgareddau sy'n cyfrannu at liniaru newid hinsawdd neu ei effeithiau.
18. Gweithgareddau sy'n cynnal neu'n gwella iechyd a lles anifeiliaid.

## PART 4

**For the purpose of contributing to the expenses of persons involved in commercial fish or aquaculture activities**

1. Activities which promote innovation.
2. Activities relating to professional advisory services.
3. Activities which promote human capital and networking.
4. Activities which improve hygiene, health, safety, and wellbeing.
5. Activities which support diversification of businesses.
6. Activities which mitigate the effects of adverse extenuating circumstances.
7. Activities which establish or improve infrastructure for marine and freshwater users.
8. Activities which promote job creation and encourages new entrants to the marine, fishing and aquaculture industries.
9. Activities which support fishers or aquaculture farmers to establish new fishing or aquaculture businesses.
10. Activities which contribute to the sustainable development of aquaculture sites.
11. Activities which support the marketing of marine, fisheries and aquaculture products or recreational fishing.
12. Activities which lead to new or improved products, processes or management and organisation systems.
13. Activities which reduce the impact of seafood production on the marine environment.
14. Activities which contribute towards conservation, restoration or enhancement of aquatic ecosystems and biodiversity.
15. Activities which contribute to the design and implementation of conservation measures.
16. Activities which support marine spatial planning for the sustainable use of marine and coastal resources.
17. Activities which contribute towards the mitigation of climate change or its effects.
18. Activities which maintain or improve animal health and welfare.

## RHAN 5

**At ddiben cynnal neu wella iechyd a diogelwch unigolion sydd ynghlwm wrth weithgareddau dyframaethu neu bysgod masnachol**

1. Gweithgareddau sy'n hyrwyddo arloesedd.
2. Gweithgareddau sy'n ymwneud â gwasanaethau cynghori proffesiynol.
3. Gweithgareddau sy'n hyrwyddo cyfalaf dynol a rhwydweithio.
4. Gweithgareddau sy'n gwella hylendid, iechyd, diogelwch, a llesiant.
5. Gweithgareddau sy'n lliniaru effeithiau amgylchiadau esgusodol niweidiol.
6. Gweithgareddau sy'n arwain at gynhyrchion, prosesau, neu systemau rheoli a threfnu, newydd neu well.

## RHAN 6

**At ddiben hyfforddi unigolion sydd ynghlwm wrth weithgareddau dyframaethu neu bysgod masnachol, a oedd ynghlwm wrthynt neu sy'n bwriadu bod ynghlwm wrthynt, neu sy'n aelodau o deuluoedd unigolion o'r fath**

1. Gweithgareddau sy'n hyrwyddo arloesedd.
2. Gweithgareddau sy'n ymwneud â gwasanaethau cynghori proffesiynol.
3. Gweithgareddau sy'n hyrwyddo cyfalaf dynol a rhwydweithio.
4. Gweithgareddau sy'n gwella hylendid, iechyd, diogelwch, a llesiant.
5. Gweithgareddau i gefnogi arallgyfeirio busnesau.
6. Gweithgareddau sy'n hyrwyddo creu swyddi ac yn annog newydd-ddyfodiaid i'r diwydiannau morol, pysgota a dyframaethu.
7. Gweithgareddau sy'n cefnogi pysgotwyr neu ffermwyr dyframaethu i sefydlu busnesau pysgota neu ddyframaethu newydd.
8. Gweithgareddau sy'n cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy safleoedd dyframaethu.
9. Gweithgareddau sy'n arwain at gynhyrchion, prosesau, neu systemau rheoli a threfnu, newydd neu well.
10. Gweithgareddau sy'n lleihau effaith cynhyrchu bwyd môr ar yr amgylchedd morol.

## PART 5

**For the purpose of maintaining or improving the health and safety of individuals who are involved in commercial fish or aquaculture activities**

1. Activities which promote innovation.
2. Activities relating to professional advisory services.
3. Activities that promote human capital and networking.
4. Activities which improve hygiene, health, safety, and wellbeing.
5. Activities which mitigate the effects of adverse extenuating circumstances.
6. Activities which lead to new or improved products, processes or management and organisation systems.

## PART 6

**For the purpose of the training of individuals who are, were or intend to become involved in commercial fish or aquaculture activities, or are family members of such individuals**

1. Activities which promote innovation.
2. Activities relating to professional advisory services.
3. Activities that promote human capital and networking.
4. Activities which improve hygiene, health, safety, and wellbeing.
5. Activities to support diversification of businesses.
6. Activities which promote job creation and encourages new entrants to the marine, fishing and aquaculture industries.
7. Activities which support fishers or aquaculture farmers to establish new fishing or aquaculture businesses.
8. Activities which contribute to the sustainable development of aquaculture sites.
9. Activities which lead to new or improved products, processes or management and organisation systems.
10. Activities which reduce the impact of seafood production on the marine environment.

11. Gweithgareddau sy'n cyfrannu at warchod, adfer neu wella bioamrywiaeth ac ecosystemau dyfrol.

12. Gweithgareddau sy'n cyfrannu at lunio mesurau cadwraeth a'u rhoi ar waith.

13. Gweithgareddau sy'n cefnogi gwaith cynllunio gofodol morol mewn perthynas â'r defnydd cynaliadwy o adnoddau morol ac arfordirol.

14. Gweithgareddau sy'n cyfrannu at liniaru newid hinsawdd neu ei effeithiau.

15. Gweithgareddau sy'n cynnal neu'n gwella iechyd a lles anifeiliaid.

## RHAN 7

**At ddiben datblygu economaidd neu welliant cymdeithasol ardaloedd lle cyflawnir gweithgareddau dyframaethu neu bysgod masnachol**

1. Gweithgareddau sy'n hyrwyddo arloesedd.

2. Gweithgareddau sy'n ymwneud â gwasanaethau cynghori proffesiynol.

3. Gweithgareddau sy'n hyrwyddo cyfalaf dynol a rhwydweithio.

4. Gweithgareddau sy'n gwella hylendid, iechyd, diogelwch, a llesiant.

5. Gweithgareddau sy'n cefnogi arallgyfeirio busnesau.

6. Gweithgareddau sy'n lliniaru effeithiau amgylchiadau esgusodol niweidiol.

7. Gweithgareddau sy'n sefydlu neu'n gwella seilwaith ar gyfer defnyddwyr y môr a defnyddwyr dŵr croyw.

8. Gweithgareddau sy'n hyrwyddo creu swyddi ac yn annog newydd-ddyfodiaid i'r diwydiannau morol, pysgota a dyframaethu.

9. Gweithgareddau sy'n cefnogi pysgotwyr neu ffermwyr dyframaethu i sefydlu busnesau pysgota neu ddyframaethu newydd.

10. Gweithgareddau sy'n cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy safleoedd dyframaethu.

11. Gweithgareddau sy'n cefnogi'r gwaith o farchnata cynhyrchion morol, pysgodfeydd a dyframaethu neu bysgota hamdden.

12. Gweithgareddau sy'n arwain at gynhyrchion, prosesau, neu systemau rheoli a threfnu, newydd neu well.

11. Activities which contribute towards conservation, restoration or enhancement of aquatic ecosystems and biodiversity.

12. Activities which contribute to the design and implementation of conservation measures.

13. Activities which support marine spatial planning for the sustainable use of marine and coastal resources.

14. Activities which contribute towards the mitigation of climate change or its effects.

15. Activities which maintain or improve animal health and welfare.

## PART 7

**For the purpose of the economic development or social improvement of areas in which commercial fish or aquaculture activities are carried out**

1. Activities which promote innovation.

2. Activities relating to professional advisory services.

3. Activities which promote human capital and networking.

4. Activities which improve hygiene, health, safety, and wellbeing.

5. Activities which support diversification of businesses.

6. Activities which mitigate the effects of adverse extenuating circumstances.

7. Activities which establish or improve infrastructure for marine and freshwater users.

8. Activities which promote job creation and encourages new entrants to the marine, fishing and aquaculture industries.

9. Activities which support fishers or aquaculture farmers to establish new fishing or aquaculture businesses.

10. Activities which contribute to the sustainable development of aquaculture sites.

11. Activities which support the marketing of marine, fisheries and aquaculture products or recreational fishing.

12. Activities which lead to new or improved products, processes or management and organisation systems.

13. Gweithgareddau sy'n lleihau effaith cynhyrchu bwyd môr ar yr amgylchedd morol.

14. Gweithgareddau sy'n cyfrannu at warchod, adfer neu wella bioamrywiaeth ac ecosystemau dyfrol.

15. Gweithgareddau sy'n cyfrannu at lunio mesurau cadwraeth a'u rhoi ar waith.

16. Gweithgareddau sy'n cefnogi gwaith cynllunio gofodol morol mewn perthynas â'r defnydd cynaliadwy o adnoddau morol ac arfordirol.

17. Gweithgareddau sy'n cyfrannu at liniaru newid hinsawdd neu ei effeithiau.

18. Gweithgareddau sy'n cynnal neu'n gwella iechyd a lles anifeiliaid.

## RHAN 8

**At ddiben gwella'r trefniadau ar gyfer defnyddio cwotâu dal neu gwotâu ymdrech**

1. Gweithgareddau sy'n hyrwyddo arloesedd.

2. Gweithgareddau sy'n ymwneud â gwasanaethau cynghori proffesiynol.

3. Gweithgareddau sy'n sefydlu neu'n gwella seilwaith ar gyfer defnyddwyr y môr a defnyddwyr dŵr croyw.

4. Gweithgareddau sy'n cefnogi'r gwaith o farchnata cynhyrchion morol, pysgodfeydd a dyframaethu neu bysgota hamdden.

5. Gweithgareddau sy'n arwain at gynhyrchion, prosesau, neu systemau rheoli a threfnu, newydd neu well.

6. Gweithgareddau sy'n lleihau effaith cynhyrchu bwyd môr ar yr amgylchedd morol.

7. Gweithgareddau sy'n cyfrannu at liniaru newid hinsawdd neu ei effeithiau.

8. Gweithgareddau sy'n cynnal neu'n gwella iechyd a lles anifeiliaid.

9. Gweithgareddau sy'n cyfrannu at warchod, adfer neu wella bioamrywiaeth ac ecosystemau dyfrol.

10. Gweithgareddau sy'n cyfrannu at lunio mesurau cadwraeth a'u rhoi ar waith.

11. Gweithgareddau sy'n cefnogi gwaith cynllunio gofodol morol mewn perthynas â'r defnydd cynaliadwy o adnoddau morol ac arfordirol.

13. Activities which reduce the impact of seafood production on the marine environment.

14. Activities which contribute towards conservation, restoration or enhancement of aquatic ecosystems and biodiversity.

15. Activities which contribute to the design and implementation of conservation measures.

16. Activities which support marine spatial planning for the sustainable use of marine and coastal resources.

17. Activities which contribute towards the mitigation of climate change or its effects.

18. Activities which maintain or improve animal health and welfare.

## PART 8

**For the purpose of improving the arrangements for the use of catch quotas or effort quotas**

1. Activities which promote innovation.

2. Activities relating to professional advisory services.

3. Activities which establish or improve infrastructure for marine and freshwater users.

4. Activities which support the marketing of marine, fisheries and aquaculture products or recreational fishing.

5. Activities which lead to new or improved products, processes or management and organisation systems.

6. Activities which reduce the impact of seafood production on the marine environment.

7. Activities which contribute towards the mitigation of climate change or its effects.

8. Activities which maintain or improve animal health and welfare.

9. Activities which contribute towards conservation, restoration or enhancement of aquatic ecosystems and biodiversity.

10. Activities which contribute to the design and implementation of conservation measures.

11. Activities which support marine spatial planning for the sustainable use of marine and coastal resources.

**At ddiben hyrwyddo neu ddatblygu pysgota hamdden**

1. Gweithgareddau sy'n hyrwyddo arloesedd.
2. Gweithgareddau sy'n ymwneud â gwasanaethau cynghori proffesiynol.
3. Gweithgareddau sy'n hyrwyddo cyfalaf dynol a rhwydweithio.
4. Gweithgareddau sy'n gwella hylendid, iechyd, diogelwch, a llesiant.
5. Gweithgareddau sy'n cefnogi arallgyfeirio busnesau.
6. Gweithgareddau sy'n lliniaru effeithiau amgylchiadau esgusodol niweidiol.
7. Gweithgareddau sy'n sefydlu neu'n gwella seilwaith ar gyfer defnyddwyr y môr a defnyddwyr dŵr croyw.
8. Gweithgareddau sy'n hyrwyddo creu swyddi ac yn annog newydd-ddyfodiaid i'r diwydiannau morol, pysgota a dyframaethu.
9. Gweithgareddau sy'n cefnogi'r gwaith o farchnata cynhyrchion morol, pysgodfeydd a dyframaethu neu bysgota hamdden.
10. Gweithgareddau sy'n arwain at gynhyrchion, prosesau, neu systemau rheoli a threfnu, newydd neu well.
11. Gweithgareddau sy'n cyfrannu at warchod, adfer neu wella bioamrywiaeth ac ecosystemau dyfrol.
12. Gweithgareddau sy'n cyfrannu at liniaru newid hinsawdd neu ei effeithiau.
13. Gweithgareddau sy'n cynnal neu'n gwella iechyd a lles anifeiliaid.
14. Gweithgareddau sy'n cefnogi gwaith cynllunio gofodol morol mewn perthynas â'r defnydd cynaliadwy o adnoddau morol ac arfordirol.

**For the purpose of the promotion or development of recreational fishing**

1. Activities which promote innovation.
2. Activities relating to professional advisory services.
3. Activities which promote human capital and networking.
4. Activities which improve hygiene, health, safety, and wellbeing.
5. Activities which support diversification of businesses.
6. Activities which mitigate the effects of adverse extenuating circumstances.
7. Activities which establish or improve infrastructure for marine and freshwater users.
8. Activities which promote job creation and encourages new entrants to the marine, fishing and aquaculture industries.
9. Activities which support the marketing of marine, fisheries and aquaculture products or recreational fishing.
10. Activities which lead to new or improved products, processes or management and organisation systems.
11. Activities which contribute towards conservation, restoration or enhancement of aquatic ecosystems and biodiversity.
12. Activities which contribute towards the mitigation of climate change or its effects.
13. Activities which maintain or improve animal health and welfare.
14. Activities which support marine spatial planning for the sustainable use of marine and coastal resources.

©©Hawlfraint y Goron 2022

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Jeff James, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

£6.90

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2022/1259>

© Crown copyright 2022

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 978-0-348-39390-3



9 780348 393903